# POLISI DIOGELWCH TÂN

| **Dyddiad** | **Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid** | **Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb** |
|---|---|---|
| 1 Mehefin 2012 | Cyhoeddiad cyntaf | |
| 27 Chwefror 2020 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | 17 Hydref 2019 |
| 23 Ionawr 2025 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | |

| **Swyddog Polisi** | **Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol** | **Cymeradwywyd yn y lle cyntaf gan** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 23 Mai 2012 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2028

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae gan dân y potensial i achosi anafiadau, marwolaethau, difrod sylweddol i eiddo a tharfu ar weithgareddau. Mae deddfwriaeth yn rhoi dyletswydd glir ar y brifysgol i asesu’r risg i’w staff ac i eraill o dân ac argyfyngau cysylltiedig eraill, ac i wneud trefniadau angenrheidiol i reoli risgiau er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch pawb. Mae hyn yn cynnwys mesurau i osgoi tân yn y lle cyntaf (atal), lleihau effaith tân (lliniaru) a gwybod yr hyn i’w wneud mewn achos tân (dulliau gweithredu mewn argyfwng).

Gall tân gael effaith ddinistriol ac mae'r rhagofalon cyffredinol a’r trefniadau rheoli a roddir ar waith gan y polisi hwn yn ceisio atal tanau rhag digwydd, neu liniaru effeithiau/elfennau pe bai tân yn digwydd, trwy addysg, ymwybyddiaeth a rheolaethau rheolaethol, gweithdrefnol a chorfforol priodol.

## 2. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo’n ymarferol bosib, ac yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, gofynion statudol ac arfer da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Mae’r polisi hwn yn nodi’r gofynion sydd ar y brifysgol a’i cholegau a’i gwasanaethau proffesiynol o ran rheoli'r risg o dân a'r gweithdrefnau i atal tân a lliniaru effaith tân pe digwydd tân. Mae’r polisi hefyd yn amlinellu dyletswyddau a chyfrifoldebau staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Ategir y polisi gan nifer o ddogfennau canllawiau rheoli sy'n cynghori colegau a gwasanaethau proffesiynol a Gwasanaethau Campws ar yr hyn sy'n ofynnol ganddynt yn benodol.

**Mae’r polisi'n berthnasol i’r canlynol:**

- Y brifysgol a'i cholegau a'i gwasanaethau proffesiynol.
- Holl adeiladau’r brifysgol, gan gynnwys adeiladau ar brydles gan 3$^{ydd}$ parti (yn amodol ar y cytundeb prydles).
- Gweithgareddau sy'n ymwneud â sylweddau peryglus, neu sy'n dod o dan y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydro[1]
- Pob aelod staff a phob myfyriwr.
- Contractwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.
- Y rhai sy'n prydlesu ac yn rhentu adeiladau neu fannau yn y brifysgol.

**Nid yw’r polisi'n berthnasol i'r canlynol**

- Safleoedd adeiladu dros dro.
- Tir nad yw’n gysylltiedig ag adeilad.

## 3. DYLETSWYDDAU DEDDFWRIAETHOL

Yn ogystal â’r dyletswyddau cyffredinol hynny yn y gyfraith, mae gan y brifysgol a’i cholegau a’i gwasanaethau proffesiynol (gwasanaethau) cyfansoddol rwymedigaethau penodol o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) a’r Ddeddf Diogelwch Adeiladau, i wneud yr hyn sy’n rhesymol ymarferol i sicrhau diogelwch pobl.

[1] DSEAR: Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol

Rhoddir y dyletswyddau sylfaenol canlynol ar y brifysgol:

a. Sicrhau bod unigolion cymwys, sy’n meddu ar hyfforddiant, gwybodaeth neu brofiad digonol, yn cynnal asesiad risg tân addas a digonol.

b. Cyfleu canfyddiadau allweddol asesiadau risg tân i breswylwyr llety dros nos, i golegau a gwasanaethau sy’n meddiannu adeiladau dibreswyl, ac i eraill sy’n rhentu neu’n prydlesu gofod yn adeiladau’r brifysgol.

c. Hyfforddi/cyfarwyddo a sicrhau bod gwybodaeth berthnasol am faterion brys a diogelwch tân cyffredinol yn cael ei rhoi i staff, myfyrwyr a chontractwyr pan fyddant yn cael eu cyflogi, eu cofrestru neu eu penodi am y tro cyntaf.

d. Darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd addas i staff a myfyrwyr pan fyddant yn dod i gysylltiad â risg tân newydd neu gynyddol.

e. Darparu offer canfod tân addas a/neu fodd o rybuddio am dân.

f. Darparu offer ymladd tân, fel sy'n briodol i'r risg.

g. Darparu ffordd ddiogel o ddianc, yn cynnwys i bobl â nodweddion gwarchodedig.

h. Darparu arwyddion tân ac arwyddion gadael adeilad mewn argyfwng sy’n addas at y diben.

i. Dylunio adeiladau fel eu bod yn rheoli effeithiau posib tân a mwg.

j. Sicrhau bod gofynion penodol sy’n gysylltiedig ag adeiladau risg uwch, yn unol â’r diffiniad yn Neddf Diogelwch Adeiladau ac is-ddeddfwriaeth Cymru, yn cael eu bodloni.

Yn ychwanegol, i fannau neu weithgareddau risg uchel, efallai y bydd rhaid wrth reolaethau ac asesiadau ychwanegol, gan gynnwys y rhai a nodir yn y Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol, sy'n gofyn am asesiadau a rheolaethau manwl i amgylcheddau a allai fod yn ffrwydrol.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

**Adeiladau Risg Uwch:** Unrhyw adeilad sydd o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf saith llawr ac sy'n cynnwys o leiaf 1 uned breswyl.[2]

**Unigolyn Cyfrifol:** Mae'n ofynnol gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) i gyflogwyr enwi 'unigolyn cyfrifol' ar gyfer diogelwch tân. Cadarnheir felly mai Prifysgol Bangor, fel y cyflogwr, yw'r 'unigolyn cyfrifol'.

## 5. DYLETSWYDDAU’R BRIFYSGOL

Fel yr unigolyn cyfrifol, bydd y brifysgol, trwy'r Bwrdd Gweithredol, yn gwneud y canlynol:

a. Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i asesu risgiau diogelwch tân yn ei hadeiladau a’i gweithgareddau.

b. Sicrhau bod rheolaethau priodol a rheolaethau ffisegol ar waith i reoli risgiau ac atal tân yn unol â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch rhag tân) a deddfwriaethau cysylltiedig eraill.

[2] Nid yw'n cynnwys gwestai (a ystyrir yn sefydliad hamdden dros dro dan y Ddeddf Diogelwch Adeiladau) h.y. y Ganolfan Rheolaeth

c. Sefydlu a mynnu bod cynlluniau rheoli brys a threfniadau ar waith i reoli a lliniaru risgiau sy’n deillio o dân, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer pobl ag anabledd a fyddai’n effeithio ar eu gallu i adael adeilad yn gyflym.

d. Sicrhau bod trefniadau diogelwch tân priodol ar waith, yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant addas.

e. Sicrhau bod proses ar waith i ymchwilio i larymau tân yn canu.

f. Sicrhau bod prif ddeiliaid adeiladau a dyrannu dyletswyddau a chyfrifoldebau yn cael eu nodi ac y dyrennir dyletswyddau a chyfrifoldebau iddynt yn unol â hynny.

g. Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer adeiladau gyda dau neu fwy o 'unigolion cyfrifol' i gadarnhau bod risgiau diogelwch tân yn cael eu rheoli a bod gweithdrefnau brys yn cael eu cyfathrebu.

## 6. DYLETSWYDDAU GWASANAETHAU CAMPWS

Yn ogystal â'r dyletswyddau gweithredol a ddisgrifir yn adran 5, Gwasanaethau Campws sy'n gyfrifol am gynnal a chadw adeiladwaith a gwasanaethau pob adeilad, sy'n eiddo i'r brifysgol, dan brydles iddi neu wedi ei rentu ganddi (oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud trwy gytundebau prydles neu rentu). Fel y cyfryw, bydd yn:

a. Trefnu i unigolyn cymwys ymgymryd ag asesiadau risg tân adeiladau ar gyfer pob adeilad sydd o dan reolaeth y brifysgol a'u hadolygu o bryd i'w gilydd, fel arfer bob 1-3 blynedd, gan nodi cyfradd risg.

b. Tynnu sylw'r brifysgol, trwy’r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau, at brif ganfyddiadau asesiadau risg tân adeiladau a blaenoriaethu a gweithredu camau adfer perthnasol sy'n adlewyrchu'r lefelau risg.

c. Rhannu gwybodaeth berthnasol o’r asesiadau risg tân adeiladau gyda cholegau a gwasanaethau, i’r adeiladau hynny y maent yn eu meddiannu, ac wedi hynny diweddaru asesiadau risg tân adeiladau gyda chamau gweithredu wedi eu cwblhau a sgôr risg diwygiedig, yn ôl yr angen.

d. Sicrhau bod myfyrwyr a staff preswyl yn cael gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch rhag tân a gwybodaeth berthnasol o’r asesiadau risg tân i’w hadeiladau.

e. Sicrhau bod unigolion cymwys ar gael i roi cyngor ar drefniadau diogelwch tân sy'n ymwneud â seilwaith adeiladau, gwasanaethau a gweithgareddau cysylltiedig y brifysgol.

f. Penodi unigolyn neu unigolion i oruchwylio trefniadau diogelwch tân cyffredinol mewn perthynas ag isadeileddau adeiladau'r brifysgol a'r gwasanaethau cysylltiedig.

g. Sicrhau bod trefnwyr digwyddiadau, sy’n archebu digwyddiadau’n ffurfiol trwy Wasanaethau Campws, yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau diogelwch tân wrth gynnal digwyddiadau yn y brifysgol.

h. Darparu systemau a chyfarpar diogelwch tân sefydlog a chludadwy ym mhob adeilad sy'n eiddo i'r brifysgol, dan brydles iddi neu wedi ei rentu ganddi (oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud trwy gytundeb prydles neu gytundebau eraill).

i. Sicrhau bod yr holl systemau a threfniadau tân, gan gynnwys rhoi gwybod am loches ddiogel, yn cael eu profi a'u cynnal.

j. Penodi peirianwyr cymwys i osod, archwilio, profi a chynnal a chadw systemau a chyfarpar argyfwng.

k. Rheoli a gweithredu ymateb brys pan fydd larwm tân yn canu, gan sicrhau bod hyfforddiant a gwybodaeth yn cael eu darparu.

l. Darparu gwybodaeth diogelwch tân a larwm tân addas i gontractwyr.

m. Ymchwilio i ffurflenni adrodd am larwm tân a chymryd camau adferol priodol, gan gofnodi pob achos o dân a larymau tân a choladu ystadegau rheoli tân.

Yn achos yr holl systemau tân mewn adeiladau, adeiladau newydd, adeiladau a adnewyddwyd a chynnal a chadw adeiladau, bydd Gwasanaethau Campws yn gwneud y canlynol:

n. Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â gofynion deddfwriaethol a bod yr effaith ar bobl anabl yn cael ei ystyried, gyda threfniadau addas yn eu lle.

o. Sefydlu a diweddaru manyleb tân a dylunio'r brifysgol a dilyn arferion da yn y sector, canllawiau i ddeddfwriaeth diogelwch tân a rheoliadau adeiladu.

p. Sicrhau mai dim ond peirianwyr/unigolion cymwys a benodir i gynllunio gwaith project â rheoliadau diogelwch tân cysylltiedig.

q. Casglu camau gweithredu o asesiadau risg tân adeiladau presennol, lle bo modd, a diwygio’r asesiad risg ar ôl cwblhau unrhyw waith a/neu asesiadau risg tân adeiladau newydd a drefnwyd os oes angen.

r. Sicrhau bod deiliaid trydydd parti eiddo'r brifysgol yn cydweithredu ac yn cydlynu ar faterion yn ymwneud â diogelwch tân.

Mae Gwasanaethau Campws hefyd yn rheoli neuaddau preswyl y brifysgol ac eiddo preswyl arall, ac mae’n ofynnol iddynt wneud y canlynol:

s. Sicrhau bod gofynion penodol y Ddeddf Diogelwch Adeiladau a deddfwriaeth Cymru gysylltiedig, ar gyfer adeiladau preswyl yn cael eu bodloni.

t. Sicrhau bod cytundebau contract penodol gyda darparwyr llety trydydd parti yn cadarnhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch tân yr Universities UK/Guild HE Code of Practice for the Management of Student Housing.

u. Sicrhau bod anghenion preswylwyr ag anabledd, sy'n amharu ar eu gallu i wybod bod larwm tân yn canu neu sy'n amharu ar eu gallu i adael yr adeilad yn ddiogel, yn cael eu hystyried a'u rheoli, gyda threfniadau priodol i sicrhau eu diogelwch mewn achos o dân neu larwm tân yn canu.

v. Datblygu a gweithredu gweithdrefnau priodol i ymateb i argyfwng/larymau tân yn canu.

w. Sicrhau bod preswylwyr yn derbyn gwybodaeth diogelwch tân addas cyn cyrraedd neu ar ôl cyrraedd.

x. Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal y mae’n rhaid i breswylwyr gymryd rhan ynddynt.

y. Cynnal archwiliadau rheolaidd o ddrysau tân ac offer diogelwch tân a chadw cofnod ohonynt.

## 7. DYLETSWYDDAU’R HOLL GOLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae pob coleg/gwasanaeth yn gyfrifol am eu staff a’u myfyrwyr, y gweithgareddau a’r lleoliadau sydd dan eu rheolaeth ac am reoli'r peryglon y maent yn eu creu neu’n eu cyflwyno.

Mae’r cyfrifoldeb hwnnw'n cynnwys cydweithio a rhoi mesurau diogelwch a luniwyd gan y brifysgol a Gwasanaethau Campws ac eraill i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'u coleg/gwasanaeth proffesiynol.

Bydd pob coleg a gwasanaeth proffesiynol yn gwneud y canlynol:

a. Nodi, gweithredu, rheoli a monitro trefniadau diogelwch tân i fodloni gofynion y polisi hwn â'r canllawiau cysylltiedig.

b. Sicrhau bod peryglon a risgiau tân, mwg a ffrwydradau yn cael eu hystyried gan eu hasesiadau risg eu hunain, a bod rheolaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith, lle bo hynny'n briodol.

c. Sicrhau bod tân ac argyfyngau posib mewn digwyddiadau a hwylusir gan y coleg/gwasanaeth yn cael asesiad risg digonol.

d. I weithgareddau neu feysydd risg uchel (yn cynnwys adweithiau cemegol, storio llawer iawn o ddeunyddiau fflamadwy a chynhyrchu 'llwch ac awyrgylch ffrwydrol') cynnal asesiad risg Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol a gweithredu rheolaethau i atal digwyddiad a/neu liniaru effeithiau.

e. Gweithredu'r argymhellion i ddefnyddwyr adeiladau a ddarperir mewn asesiadau risg tân adeiladau sy'n berthnasol i'r coleg/gwasanaeth.

f. Cyfathrebu a chydweithio gyda defnyddwyr eraill yr adeilad a chyda Gwasanaethau Campws ar faterion rheoli risg a threfniadau mewn argyfwng.

g. Hysbysu a chysylltu â Gwasanaethau Campws cyn cyflwyno risg tân newydd sylweddol, fel y gellir asesu'r effaith bosib ar gyfyngu tân ac ar asesiadau risg tân adeiladau

h. Sicrhau bod staff, myfyrwyr, gweithwyr tymor byr a dros dro, academyddion ar ymweliad a phobl eraill sydd dan eu rheolaeth yn cael gwybodaeth am ddiogelwch tân a threfniadau mewn argyfwng pan gyflogir, cofrestrir neu penodir yr unigolyn dan sylw.

i. Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn cael gwybodaeth neu hyfforddiant diogelwch tân ychwanegol pan fyddant yn dod i gysylltiad â risg newydd a chynyddol o dân neu ffrwydrad.

j. Sicrhau bod staff, a myfyrwyr dan eu rheolaeth, yn cymryd rhan mewn ymarferion tân bob blwyddyn.

k. Rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod pobl nad ydynt yn gallu gadael adeilad yn gyflym neu'n hawdd, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig, yn cael gwybodaeth am fannau lloches ddiogel ac, fel y bo'n briodol, y caiff cynllun personol dianc mewn argyfwng ei gynhyrchu ar eu cyfer.

l. Adrodd am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thân a chynorthwyo gydag ymchwiliadau, fel y bo'n briodol.

Yn ogystal â'r uchod, bydd y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol hynny sy'n brif ddeiliaid adeiladau (prif ddeiliad enwebedig) yn gwneud y canlynol:

m. Penodi a chyfarwyddo marsialiaid tân a fydd yn cynorthwyo gydag ymarferion tân a gadael adeilad ac yn cynnal gwiriadau diogelwch tân rheolaidd ar lwybrau cylchrediad ac ymadael.

n. Cynnal neu drefnu ymarferion tân rheolaidd, o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel arfer.

o. Cadarnhau neu brofi'r system larwm tân yn rheolaidd.

p. Cadw cofnodion o bob ymarfer tân ac o bob tro y profir y larymau yn y coflyfr tân.

## 8. DYLETSWYDDAU STAFF A MYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob aelod staff a phob myfyriwr wneud y canlynol:

a. Cymryd rhan a chydweithio wrth adael adeilad oherwydd tân a dilyn rheolau a gweithdrefnau rheoli diogelwch tân.

b. Ar ôl clywed y larwm tân, mynd allan yn gyflym ac yn ddiogel ar hyd y llwybr ymadael diogel agosaf, gan gau drysau ar y ffordd ac annog eraill i adael hefyd.

c. Mynd i hyfforddiant perthnasol neu gymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol.

d. Peidio ag ymyrryd â systemau/cyfarpar a ddarparwyd at ddibenion diogelwch na'u camddefnyddio.

e. Rhoi gwybod am bryderon diogelwch tân i'w goruchwyliwr/rheolwr llinell neu Wasanaethau Campws.

f. Peidio â defnyddio fflamau agored, e.e. canhwyllau, arogldarth, llosgwyr olew, yn y neuaddau preswyl nac yn y swyddfeydd.

g. Ceisio cymeradwyaeth gan yr adran Iechyd, Diogelwch a Lles y Campws os ydych am ddefnyddio pyrotechneg neu gynhyrchwyr mwg, a chyn cynnal arddangosfeydd tân gwyllt.

h. Sicrhau bod gwresogyddion trydan yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu defnyddio ger deunyddiau llosgadwy, nad ydynt yn cael eu gorchuddio a'u bod yn cael eu diffodd pan nad oes unrhyw un yn yr ystafell am unrhyw gyfnod (SYLWER: ni chaniateir defnyddio gwresogyddion gydag 'elfennau agored').

I’r aelodau hynny o staff sy’n goruchwylio eraill, gan gynnwys darlithwyr sy’n goruchwylio myfyrwyr a threfnwyr digwyddiadau a chynadleddau, mae dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol arnynt i sicrhau’r canlynol:

i. Darparu gwybodaeth addas am ddiogelwch tân a gadael adeilad mewn argyfwng.

j. Bod y rhai sydd dan eu goruchwyliaeth yn gadael yr adeilad yn ddiogel ac yn gyflym ar ôl clywed y larwm tân.

## 9. CANLLAWIAU PELLACH

- Canllaw rheoli diogelwch tân Gwasanaethau Campws.
- Canllawiau rheoli diogelwch tân colegau a gwasanaethau proffesiynol
- Canllawiau rheoli diogelwch tân neuaddau preswyl

## 10. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech i gefnogi unigolion er mwyn eu trin yn gyfartal a'u galluogi i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r brifysgol yn yr un modd â'u cyfoedion.

Mae trefniadau rheoli diogelwch tân y brifysgol yn ei gwneud yn glir bod rhaid rhoi ystyriaeth addas i bobl ag anableddau a allai effeithio ar eu cyflymder yn deall bod argyfwng neu ar eu gallu i ddeall bod argyfwng neu ar eu gallu i adael yr adeilad yn ddiogel ac yn gyflym. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn cynnwys gosod systemau larwm tân clywadwy neu weledol neu rai sy'n crynu yn lleol a sefydlu lloches ddiogel addas er mwyn i'r sawl allu disgwyl am gymorth i adael yr adeilad yn ddiogel. Fodd bynnag, mewn rhai achosion prin iawn, efallai y bydd rhaid trin 'pobl sydd â nodwedd warchodedig' yn wahanol er mwyn diogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwythau. Caiff unrhyw ystyriaethau o'r fath eu trafod gyda'r unigolyn a chytuno ynglŷn ag addasiadau rhesymol.

## 11. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd yr adran Iechyd a Diogelwch canolog yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r polisi hwn neu gydag agweddau ar y polisi hwn a deddfwriaeth berthnasol.

Rhaid i'r colegau / gwasanaethau proffesiynol adolygu eu gweithdrefnau eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi’n cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**